Cadwyn Bro

Cylchgrawn Eglwysi Bro Dinbych
Gweinidog: Parch Ddr. Andras Iago
Ffon – 07778511672 E-bost – andras.iago@ebcpcw.cymru

Ionawr 2020 Rhif 099

Ar ddechrau blwyddyn a degawd arall ...

Blwyddyn Newydd Dda i Chi!

Neu efallai y dyliwn i ddweud eto – 'Nadolig Llawen i chi!'
Pam?
Wel, mae'n ddigon posib y daw *Cadwyn Bro* i'ch dwylo chi yn ystod 'tymor y Nadolig'. Yn y flwyddyn eglwysig, mae tymor y Nadolig yn *dechrau* yn yr hwyr ar y 24ain o Ragfyr – Noswyl Nadolig. Mae'n parhau wedyn tan y 5ed o Ionawr – nos Ystwyll. Dyma yw'r cyfnod traddodiadol pan fydd Cristnogion yn dathlu geni Iesu Grist, ac mae cymaint o'n arferion Nadoligaidd ni yn adlewyrchu hyn. Dyma pam, er enghraifft, mai'r 6ed o Ionawr yw'r diwrnod traddodiadol i dynnu'r addurniadau lawr ar ôl y dathlu. Dyna dasg na fydd unrhyw un yn edrych ymlaen ati!

Rwy'n credu fod hyn yn ein hatgoffa o rywbeth pwysig. Mae newyddion da y Nadolig yn llawer, llawer rhy fawr i'w gaethiwo i un diwrnod yn unig ar ddiwedd tymor yr Adfent. Mae Iesu wedi ei eni – mae pob addewid wnaeth Duw i'w bobl yn dod yn wir. Mae gennym ni waredwr a ffrind i bob un sy'n trystio ynddo. Mae'r Duw greodd y cwbl wedi dod i'n byd ni mewn cnawd, yn berson o gig a gwaed fel ni, ac oherwydd hynny mae'n ein hadnabod ni ac yn ein deall.

Mae'n siŵr fod ein hagwedd ni at ddechrau blwyddyn arall yn dweud tipyn amdanom ni. Efallai bod ni'n falch o gael y teimlad o droi tudalen newydd sy'n dod ar ddechrau Ionawr. Efallai fod hwn yn gyfnod o bwyso a mesur blaenoriaethau, yn gyfnod o ystyried y gorffennol a meddwl am yr hyn sydd eto i ddod. Neu efallai wir bydd hi'n ganol mis Ionawr cyn i ni sylwi, a bydd prysurdeb bywyd

yn ein tynnu ni i bob cyfeiriad. Sut bynnag ydyn ni'n teimlo, mae'n werth cofio ar ddechrau blwyddyn fod yr Arglwydd Iesu wedi ei eni, a'r cwbl mae hynny'n ei olygu i ni. Mae'n waredwr sy'n barod i faddau a rhoi dechrau newydd go iawn gyda Duw yn Arglwydd arnom. Mae'n un sicr a digyfnewid sy'n gwybod beth yw'r llwybr sydd o'n blaenau. Eleni, ydym ni am gerdded ar ei lwybrau o, neu barhau i ddilyn ein llwybrau ni'n hunain? Mae'r dewis o'n blaenau ni bob un. Wnaiff o mo'n siomi ar y daith.

DIGWYDDIADUR

TREFNIADAU'R EGLWYSI

GWASANAETH PLYGAIN yng Nghapel Y Pentre, 5/01/2019 am 5 y.h. Croeso cynnes i bawb, a chroeso i unrhyw un i ganu carol neu gyflwyno eitem.

ASTUDIAETH FEIBLAIDD yn Trefnant ar y 15fed a'r 29ain o Ionawr am 1.30 y.p. Croeso cynnes i bob un.

CWRS Y BEIBL – Byddwn yn ailgychwyn ar Gwrs y Beibl yn festri Capel y Pentre. Cyfres o fideos yw 'Cwrs y Beibl' sy'n ein helpu i ddeall sut mae'r Beibl yn ffitio at ei gilydd, ac mae'r sesiynau yn addas i bawb. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Andras.

CINIO'R FRO
Cynhelir Cinio'r Fro dydd Gwener Ionawr 10ed am 12.00 yn Festri y Capel Mawr. Y siaradwr gwadd wedi'r cinio fydd Mr Gwilym Luke Jones.

BODFARI

Dydd Sul, Ionawr 5ed

5.00 - Gwasanaeth Plygain y Fro yng Nghapel y Pentre

Dydd Sul, Ionawr 26

9.45 -Parch Andras Iago

Rydym yn meddwl am y rhai nad ydynt yn mwynhau iechyd gorau ar hyn o bryd ac yn dymuno Blwyddyn Newydd Dda yn llawn bendithion i bawb.

CAPEL BRWCWS

Dydd Sul, Ionawr 5ed

Gwasanaeth Plygain y Fro yng Nghapel y Pentre am 5.00.

Nos Iau, Ionawr 9ed

Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 7.00

Dydd Sul, Ionawr 12ed

Gwasanaeth o dan ofal y Parch. Andras Iago yn y ~~Brwcws~~ Fron am 11.00

Nos Fercher, Ionawr 15ed.

Cymdeithas Chwiorydd y Fron a'r Brwcws am 7.00

Sgwrs a Ffilm gan Dafydd Lloyd Jones

Dydd Sul, Ionawr 19eg

Ysgol Sul am 10.00

Mr Tom Williams am 2.00

Dydd Sul, Ionawr 26ain

Ysgol Sul am 10.00

Parch. Bernard Thomas am 2.00

Pob bendith ar gyfer 2020 i bawb.

CAPEL Y DYFFRYN

Dydd Sul, Ionawr 5ed am 5 yh
Gwasanaeth Plygain yn Llanrhaeadr

Nos Lun, Ionawr 6ed am 7 yh
Cyfarfod Gweddi dan ofal Y Gymdeithas

Dydd Sul, Ionawr 12fed am 9.45 yb
Parch John Owen
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen Plant - Cadi a Megan
Emyn a Darllen - Mary
Organ - Iona
Blodau - Olga
Yn dilyn y Gwasanaeth, bydd Cyfarfod Blynyddol o garedigion yr Ysgol Sul.

Dydd Sul, Ionawr 19eg am 11 yb
Parch Andras Iago
Gwasanaeth a Cymun
Emyn a Darllen - Lis
Organ - Ann
Blodau - Gwyneth

Nos Lun, Ionawr 20fed am 7 yh
Y Gymdeithas gyda Heledd Wyn Evans, Fforddlas

Dydd Sul, Ionawr 26ain am 9.45 yb
Arwel Roberts
Gwasanaeth ac Ysgol Sul Plant
Ysgol Sul Oedolion am 9.15 yb
Emyn a Darllen Plant - Anna
Emyn a Darllen - Buddug
Organ - Alaw
Blodau - Helen R.

Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda a Bendithiol i chwi oll.

GELLIFOR

Dydd Sul, Ionawr 5ed
5.00 - Gwasanaeth Plygain y Fro yng Nghapel y Pentre
Dydd Sul, Ionawr 12
11.00 - Parch John Owen
Llywydd – Gareth
Gwasanaeth Dechreuol - Llinos
Offeryn – Margaret
Blodau – Marian
Dydd Sul, Ionawr 19
9.45 – Gweinidog
Llywydd – Glen
Gwasanaeth Dechreuol – Elsbeth
Offeryn – Richard
Blodau – Marian
Dydd Sul, Ionawr 26
11.00 – Arwel Roberts
Llywydd - Nic
Gwasanaeth Dechreuol – Marian
Offeryn – Alaw
Blodau – Bryn Bedw

Y FRON

Llywydd y Mis - Mr Richard Snelson

Dydd Sul, Ionawr 5ed
5 y.h Gwasanaeth Plygain y Fro yn Capel y Pentre
Nos Lun,Ionawr 6ed
7y.h Cyfarfod Gweddi Dechrau'r flwyddyn (Fron)
Dydd Sul,Ionawr 12ed
11.00 yn y Bwcws - Bugail
Dydd Sul,Ionawr 19eg
10.00 yn y Capel Mawr - Mr. Tom Williams,Dinbych
Dydd Sul, Ionawr 26ain
10.00 yn y Fron - Parch Bernard Thomas, Trefnant

Organyddion - Iona Edwards a Eiri Jones
Casglyddion - Aelwyn Lloyd a John Geraint Jones
Croesawu - Ionawr 26ain - Dilys
Blodau - Ionawr 26ain - Er cof am Cec Griffiths

Llongyfarchiadau i Erin a Carwyn Lloyd ar enedigaeth eu mab cyntafanedig, Twm Rhys.

Cydymdeimlwn gyda Sam, Nia ac Elen Wyn yn eu profedigaeth o golli Mrs Ceinwen Jones oedd yn nain, a hen nain annwyl iddynt. Hefyd y mae Mrs Nancy Brierley wedi colli brawd, sef Mr Hugh Williams, Gellifor. Yr ydym yn anfod ein cofion atynt.

Cymdeithas Chwiorydd y Fron ar Brwcws
Cynhelir ein cyfarfod nesaf Nos Fercher Ionawr 15ed am 7 o'r gloch pryd y bydd Mr Dafydd Lloyd Jones yn dangos ffilm ar Hanes Neuadd y Dref, Dinbych.

Y CAPEL MAWR A SEION

*****D.S. Cynghorir chwi i graffu'n fanwl ar amseroedd yr oedfaon ar gyfer y mis hwn. Sylwer na fydd yna oedfa hwyrol yn Y Capel Mawr na'r Fron yn ystod Ionawr.**

Dydd Sul, Ionawr 5
5pm – Capel Y Pentre, Llanrhaeadr - Gwasanaeth Plygain i'r Fro

Dydd Sul, Ionawr 12
11am – Capel y Fron – Y Gweinidog
Dydd Llun. Ionawr 13
1.30pm - Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn
Dydd Sul, Ionawr 19
10am – Y Capel Mawr – Mr Tom Williams
Dydd Mawrth, Ionawr 21
1.30pm – Yr Aelwyd.
Sgwrs gan Ann Jones Evans, Llandyrnog. - Dilyn y Porthmyn
Dydd Sul, Ionawr 26
10am - Y Fron – Y Parch. Bernard Thomas, Trefnant

Llywydd Y Mis: – Mrs Angharad Rhys

Casglyddion/ Wrth y Drws:-
Gwirfoddolwyr o'r gynulleidfa

Organydd/ Cyfeilydd:-
Ionawr 19eg - Mrs Catrin Warren

Blodau
Ionawr 19eg - Mrs Olwen Roberts

COLLI AELOD

Bu inni golli aelod arall gyda marwolaeth Mrs Ceinwen Jones ar Dachwedd 29ain. Bu'i hangladd ar Ragfyr 7fed gyda gwasanaeth cyhoeddus yn Y Capel Mawr yn cael ei ddilyn gyda thraddodiant ym mynwent yr Eglwys Wen.

Gweinyddwyd gan y Parch. Ddr. Andras Iago, Y Parch. W.H. Pritchard a'r Parch. Hugh Pritchard. Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ.

Bu Mrs Jones yn flaenores yn yr Henaduriaeth er 1992, yn gyntaf yn Seion ac yna yn Y Capel Mawr. Yn wraig ddiwylliedig, gwnaeth gyfraniad helaeth i'r gymuned lle bynnag y bu'n byw, a hynny o fewn a thu allan i'r eglwys. Mawr fydd y bwlch ar ei hôl.

Cydymdeimlwn â'i theulu a'i chyfeillion yn eu profedigaeth, a meddyliwn amdanynt yn ein gweddïau.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Haydn Williams a'r teulu yn eu profedigaeth – Haydn wedi colli'i frawd. Cofiwn amdanynt yn ein gweddïau.

Yr Aelwyd

Dechreuwyd ein cyfarfod Nadoligaidd gan Freda Evans yn darllen ei hoff garol "A welaist ti'r ddau"
Trist iawn oedd gan bawb glywed am farwolaeth Mrs Beryl Owen, un arall o'n aelodau oedd fel Mrs Ceinwen Jones wedi bod mor ffyddlon i'r Capel a'r Aelwyd. Bydd colled fawr ar ol y ddwy.
Rhoddwyd croeso i'n gwr gwadd gan y llywydd. Mae'r Parchedig Bernard Thomas o gwm Tawe yn wreiddiol, wedi ei ordeinio ym 1972 ac wedi bod yn gurad yn Aberdar a llefydd eraill cyn dod yn Archddeacon Llanelwy a rheithor Llandyrnog yn 2000 hyd 2011 pryd yr ymddeolodd.
Cawsom hanes diddorol yr Eglwys yng Nghymru o 1920 pryd y dadgysylltodd o Eglwys Lloegr. Roedd Anghydffufwyr yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gwrthryfela yn erbyn talu'r degwm i Eglwys Lloegr ac roeddent yn cefnogi'r dadgysylltu.
Pasiwyd y ddeddf yn San Steffan ym 1914 ond ni ddaeth i rym tan 1920 oherwydd y rhyfel byd cyntaf. Clywsom am bobl diddorol fel Thomas Gee a Lady Charlotte Guest Dowlais. Bydd dathlu'r canmlwyddiant yn 2020 ac un peth fydd yn cael ei wneud fydd codi £100,000 fydd yn cael ei ranu rhwng lloches nos yn Wrecsam a Chymorth Cristnogol yn helpu rhai yn Ne Sudan.
Diolchwyd i'r Parch Bernard Thomas gan Ronwy Rogers a diolchodd hefyd i'r rhai fu'n paratoi y bwyd ac yn helpu ar hyd y flwyddyn.
Braf oedd mwynhau'r bwyd a'r sgwrs o gwmpas y byrddau.

LLANRHAEADR, PRION A'R GLYN

5ed	5.00	Pentre	Gwasanaeth Plygain y Fro
12fed	9.45	Pentre	Cyfarfod Gweddi
19eg	9.45	Prion	Mr Denis Davies
27ain	9.45	Pentre	Gweinidog

MYFYRDOD Y NADOLIG

Diolch i Leah Prion am drefnu'r rhaglen rhagorol ar ein cyfer. Cawsom wasanaeth hyfryd yn cynnwys parti canu, darlleniadau a gweddïau i gyfleu naws y Nadolig. Diolch i Megan a Marian y Glyn am addurno mor hardd, Diolch hefyd i Sue (mam Paula, nain Llio, Lisa, Rhian a Sioned) am y rhodd "cwilt" sy'n hongian mor hardd ar y wal, (gyda diolch i Arwel a Heulwen Pen y Mynydd am ei osod). Diolch i Carole Prion am defnu gwasanaeth Llith a Charol ym Mhrion.

CYFARCHION NADOLIG

Diolch i bawb sydd wedi arwyddo'r poster cyfarchion eto eleni. Mae'r casgliad yn cael ei anfon at elusen Sant Cyndeyrn.

GWASANAETH NADOLIG Y PLANT A'R BOBL IFANC

Cawsom fore bendigedig dan ofal y plant a'r bobl ifanc yn eu gwasanaeth modern nadoligaidd. Roedd neges y Nadolig yn cael ei gyfleu mor effeithiol yn y perfformiad, diolch o galon i'r mamau am drefnu ac am eu hyfforddi unwaith eto. Diolch i'r ysgol sul am yr holl waith drwy'r flwyddyn, a hyfryd oedd gweld lluniau "Uchafbwyntiau'r Flwyddyn" yn cael eu dangos ar y sgrîn – rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad arbennig i'r Capel ac i'r gymdeithas ehangach.

Ar ôl y gwasanaeth cawsom ymweliad gan Sion Corn - diolch iddo am yr anrhegion caredig unwaith eto! Mwynhaodd pawb y baned a'r mins pei i ddilyn- diolch i bawb am eu cymorth yn gweini.

CYDYMDEIMLAD

Anfonwn ein cofion a'n cydymdeimlad at Sheila a'r teulu yn eu tristwch o golli eu brawd Derek o'r Pentre.

Rydym yn falch o glywed fod Gwenfyl Prion yn gwella.
Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at bawb am Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd.

Y GLYN

Dydd Sul Ionawr 19eg - Cyfarfod am 2 y.p. dan ofal Andras.

TREFNANT

Llywydd y Mis : DILYS HUGHES

Dydd Sul Ionawr 5ed :
10.00. Gwasanaeth Teuluol
Blodau. : Eleri. Jones
5.00. Gwasanaeth y Plygain yng Nghapel y Pentre, Llanrhaeadr
CYFARFODYDD DECHRAU'R FLWYDDYN
Dydd Mawrth Ionawr 6ed.
7.00. Gwasanaeth dan ofal
Y Parch. Nan Powell Davies, Yr Wyddgrug
Nos Fercher Ionawr 7fed.
7.00. Gwasanaeth Gweddi a Mawl.
Dydd Sul Ionawr 12fed:
9.45 Gweinidog- Gwasanaeth y Cymun 11.00 YSO
3.00. Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau : Eleri. Jones
Dydd Sul Ionawr 19eg.
10.00. Arwel Roberts 11.00. YSO
3.00 Gwasanaeth Gweddi a Mawl
Blodau. : Cath. Lewis
Dydd Sul Ionawr 26ain.
10.00. Parch John Owen gyda phaned i ddilyn
3.00 Parch John Owen
Blodau : Cath Lewis

Y GYMDEITHAS LENYDDOL Croeso i bawb i gyfarfod croesawu Siôn Corn ar Nos Wener, Rhagfyr 20fed. am 6.30pm. Yna ym mis Ionawr ar yr 17eg, bydd trip i Theatr Clwyd i weld pantomeim Jack and the Beanstalk wedi'i drefnu gan Angharad Ellis.

CYFARFOD GWEITHGAREDDAU a'r Ffair Nadolig. Eto eleni bu'r achlysur hwn yn llwyddiannus dros ben gan sicrhau dros £600 o elw i'w rannu rhwng Hosbis San Cyndeyrn a'r Capel. Diolch eto i'r Merched am baratoi a threfnu'r achlysur hwn yn ystod yr wythnosau cynt ac, wrth gwrs, i bawb wnaeth ymuno a chefnogi ar y bore Sadwrn. Bydd Cyfarfod y Gweithgareddau yn ail-gychwyn ar brynhawn Llun, Ionawr 20fed 2020 – croeso cynnes i bawb.

CYDYMDEIMLAD Estynnwn ein cydymdeimlad cywir gyda dau aelod sydd wedi colli anwyliaid yn ystod yr wythnosau diwethaf. Collodd Catherine Lewis ei brawd, Y Parchedig John Owen, Bethesda, a John Morris yntau, ei chwaer Mrs. Ceinwen Jones, Dinbych. Cofiwn amdanoch a'r teuluoedd i gyd yn ein gweddïau.

DYMUNIADAU CYNNES a BLWYDDYN NEWYDD DDA i bawb ac yn arbennig i'r rhai ohonoch sy'n methu'r cyfarfodydd ar hyn o bryd. Cofiwn yn arbennig am Mrs Betty Griffiths sydd yn treulio peth amser yn Ysbyty Rhuthun ar hyn o bryd ac i Marian Roberts sy'n ymgartrefu yng nghartref Dolwen yn Ninbych. Eraill ohonoch yn cael hi'n anodd mynychu ar y Suliau ond byddwn yn cofio amdanoch yn ein holl wasanaethau.

Newyddion rhifyn Chwefror o'r Cadwyn Bro,
erbyn dydd Gwener Ionawr 17
e-bost: meinididdos13@gmail.com
neu 01745 890417